# Cynllunio a chreu colur ffasiwn a ffotograffig

## Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu sgiliau colur creadigol ar gyfer gwaith ffasiwn a ffotograffig mewn ffordd sy'n cyfoethogi'ch proffil proffesiynol eich hun. Mae'r gallu i ymchwilio, cynllunio a chreu ystod o edrychiadau colur i friff penodol, ar y cyd ag eraill, yn ofynnol ar gyfer y safon hon. Mae'r gallu i werthuso'r canlyniadau yn erbyn y briff cynllun hefyd yn ofynnol.

Er mwyn cyflawni'r safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a dangos sgiliau cyfathrebu da i rannu'r cysyniadau cynllun gydag eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynllunio ystod o edrychiadau colur

2. cynhyrchu ystod o edrychiadau colur

3. gwerthuso'ch canlyniadau yn erbyn amcanion y briff cynllun

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynllunio ystod o edrychiadau colur****

1. cytuno ar drefniadau cytundebol gyda'r unigolyn perthnasol cyn dechrau ar eich cynllun
2. adnabod y **gweithgaredd** arfaethedig y mae angen colur ar ei gyfer
3. casglu gwybodaeth i ymchwilio i syniadau ar themâu ar gyfer y cynllun
4. defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i greu'ch cynllun
5. creu cynllun sydd ag amcanion clir ac yn bodloni'r briff cynllun gan yr unigolyn perthnasol
6. cynllunio byrddau hwyliau ar gyfer yr **edrychiad** gofynnol
7. adnabod yr holl **adnoddau** a **chyfryngau ychwanegol** sy'n ofynnol
8. ystyried sut y gellir gostwng risgiau i iechyd a diogelwch
9. cytuno ar eich cynllun gyda'r unigolyn perthnasol

**Cynhyrchu ystod o edrychiadau colur****

10. paratoi'r amgylchedd gwaith i fodloni gofynion cyfreithiol a sefydliadol
11. paratoi cyfarpar, deunydd a chynnyrch ar gyfer taenu colur
12. gweithio mewn ffordd sy'n caniatáu mynediad ac yn isafu'r risg o anaf i chi ac eraill
13. defnyddio **technegau taenu colur** i greu'r **edrychiad** y cytunwyd arno
14. rheoli **adnoddau** o fewn cyfyngiadau'ch awdurdod eich hun
15. cyfathrebu gyda'r unigolyn perthnasol trwy gydol y **gweithgaredd** colur
16. sicrhau bod defnydd ar **adnoddau** yn cydymffurfio â'r cynllun
17. sicrhau bod yr **edrychiad** colur gorffenedig yn bodloni'r briff cynllun

**Gwerthuso'ch canlyniadau yn erbyn amcanion y briff cynllun****

**

18. sicrhau a gwerthuso adborth gan yr unigolyn perthnasol ar eich gwaith a'i effeithiolrwydd

19. gwerthuso'ch perfformiad eich hun yn erbyn eich amcanion i adnabod sut a ble y gellid ei wella

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cynllunio ystod o edrychiadau colur****

1. y rhesymau dros gytuno ar drefniadau cytundebol cyn dechrau ar eich cynllun

2. y camau y dylid eu cymryd i sicrhau bod gennych yswiriant digonol

3. sut i ddehongli briff cynllun

4. sut i greu cynllun colur manwl a chywir

5. gwahanol ddulliau cyfathrebu a chyflwyno'ch cynllun i'r **bobl berthnasol**

6. egwyddorion theori lliw

7. y gwahanol fathau o effeithiau golau a chamera a sut mae'r rhain yn effeithio ar y colur

8. pam mae'n bwysig gosod a gweithio i gyllideb

9. ystod ac argaeledd adnoddau sy'n ofynnol a ble y gellir cael gafael arnynt

10. sut i greu bwrdd hwyliau a'i gymhwyso i'ch cynllun colur

11. sut i addasu'ch cynlluniau i fodloni cyfyngiadau'r lleoliad

12. y **problemau cyffredin** sy'n gysylltiedig â sesiynau tynnu ffotograffau, sioeau ffasiwn a sut i'w datrys

13. y peryglon posibl y mae'n rhaid eu hystyried wrth weithio mewn unrhyw leoliad

14. y camau y dylid eu cymryd i isafu ar risgiau

15. sut y gallai is-ddeddfau a deddfau lleol gyfyngu ar eich defnydd o adnoddau

16. y gweithdrefnau **iechyd a diogelwch** sy'n berthnasol i unrhyw leoliad yr ydych chi'n ei ddefnyddio

17. sut i adnabod gwrtharwyddion a chyfyngiadau i'r colur a sut i ddelio â hwy

**Cynhyrchu ystod o edrychiadau colur****

18. sut i baratoi ac addasu'r amgylchedd gwaith i fodloni gofynion cyfreithiol a sefydliadol

19. **dulliau** cyfathrebu'ch gofynion i'r **bobl berthnasol**

20. egwyddorion cynllun, gradd a chyfrannedd wrth greu edrychiad

21. edrychiadau colur eiconig a sut y mae gwahanol ddiwylliannau wedi dylanwadu ar dueddiadau colur a ffasiwn

22. y gwahanol fathau o dechnegau colur a sut i'w defnyddio

23. sut i ail-greu edrychiadau hanesyddol yn ddiogel i fodloni safonau heddiw

24. y ffyrdd y gall cyfryngau cymdeithasol gael eu defnyddio i ategu at y cynllun cyffredinol

25. sut i addasu'r cynnyrch a'r dewis o golur i gyd-fynd â'r **amgylchiadau**

**Gwerthuso'ch canlyniadau yn edrych ar amcanion y briff cynllun****

26. diben y gweithgareddau gwerthuso

27. ar ba feysydd y dylid casglu adborth

28. dulliau casglu adborth gan eraill

29. buddion masnachol posibl a all ddeillio o waith cynllun colur

30. sut y gellir addasu'r edrychiadau cynllun i gyd-fynd â gweithgareddau eraill

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Gweithgaredd****

1. ffotograffig – du a gwyn
2. ffotograffig – lliw
3. sioeau ffasiwn

**Edrychiad****

1. cyfnod
2. ffantasi
3. ffasiwn uchel
4. llwyfan sioe ffasiwn
5. priodasol
6. masnachol
7. golygyddol

**Adnoddau****

1. offer a chyfarpar
2. cynnyrch
3. amser
4. pobl
5. lleoliad
6. cyllideb

**Cyfryngau ychwanegol****

1. ategolion
2. dillad
3. gwallt
4. ewinedd
5. blew amrannau ffug

**Technegau taenu colur****

1. taenu haen sylfaenol fanwl
2. goleuo ac arlliwio
3. cuddio
4. cymysgu
5. taenu cynnyrch llygaid ac aeliau yn fanwl
6. taenu cynnyrch gwefusau yn fanwl
7. cymysgu lliw
8. stensilio
9. colur corff
10. chwistrellu paent

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Pobl berthnasol****

1. ffotograffydd
2. cyfarwyddwr celf
3. cynllunydd colur
4. cynllunydd gwallt
5. cleientiaid
6. perfformwyr
7. cynllunydd dillad
8. steilyddion
9. technegydd ewinedd
10. cynorthwyydd

**Problemau cyffredin****

1. staffio
2. methiannau offer a chyfarpar
3. mynd dros amser
4. amodau amgylcheddol
5. cyfyngiadau cyllideb

**Iechyd a diogelwch****

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

**Dulliau****

1. holi
2. edrych
3. gwrando
4. iaith y corff

**Amgylchiadau****

1. amgylcheddol
2. canslo
3. salwch
4. newid i'r briff

## Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

## Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiad hwn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn
9. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

## Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwych
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

## Geirfa

**Perfformiwr****

Y perfformiwr yw'r un a fydd yn cael y colur. Gall hyn gynnwys modelau, perfformwyr ac enwogion.

**Cyfarwyddwr Celf****

Mae Cyfarwyddwr Celf yn deitl cyffredinol ar amrywiaeth o swyddogaethau tebyg o fewn hysbysebu, cyhoeddi, ffilm, theatr a theledu. Fel arfer yr unigolyn hwn sy'n gyfrifol am gelf/cynllun cyffredinol y prosiect.

**Steilydd****

Yr unigolyn sy'n gyfrifol am benderfynu ar y gofynion cwpwrdd dillad a'r edrychiad cyffredinol posibl.

**Cynllun****

Siart a ddefnyddir i ddangos cynllun y colur a rhestr o gynnyrch, ategolion, ac unrhyw gyfrwng

ychwanegol sy'n ofynnol.

**Briff Cynllun****

Dadansoddiad o'r hyn y mae'r bobl berthnasol eisiau ei gyflawni i sicrhau'r canlyniad gorffenedig, o fewn amserlen, cyllideb a lleoliad penodol.

SKABT13

Cynllunio a chreu colur ffasiwn a ffotograffig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Meh 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAB11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Therapydd Harddwch, Artistiaid colur |
| **Cyfres/Set** | Therapi Harddwch |
| **Geiriau Allweddol** | cynllun; ffasiwn; ffotograffig; colur |